


This document is also available in English.

HEDDLU GWENT POLICE

# ADRODDIAD SAFONAU BLYNYDDOL HEDDLU GWENT 2021 | 2022





# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| TUDALEN 4 | RHAGAIR |
| TUDALEN 6 | UCHAFBWYNTIAU |
| TUDALEN 8 | Y STRATEGAETH GYMRAEG AR Y CYD |
| TUDALEN 9 | CWYNION |
| TUDALEN 9 | SWYDDI A HYSBYSEBWYD YN 2021-22 |
| TUDALEN 10 | HYFFORDDIANT YN Y GYMRAEG |
| TUDALEN 11 | SGILIAU CYMRAEG CYFLOGEION |
| TUDALEN 13 | MONITRO A GORUCHWYLIO CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU |
| TUDALEN 14 | CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU DARPARU GWASANAETH |
| TUDALEN 16 | CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU LLUNIO POLISI |
| TUDALEN 17 | CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU GWEITHREDOL |
| TUDALEN 19 | HERIAU |
| TUDALEN 19 | CYSYLLTU Â NI |

# RHAGAIR



Yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn, mae pandemig Covid-19 wedi arwain at newidiadau mewn arferion busnes ar draws y sector cyhoeddus. Er enghraifft, mwy o weithio o bell ac mae cyfarfodydd a fyddai wedi cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn y gorffennol wedi cael eu cynnal ar-lein yn aml.



Er gwaethaf y newidiadau hyn yn rhai agweddau ar ein busnes, mae ein hymrwymiad i gynnig mynediad at wasanaethau plismona Cymraeg i aelodau'r cyhoedd wedi parhau, yn bersonol a thrwy ein gwefan Gymraeg. Rydym wedi gallu gweithio'n llwyddiannus gyda Gyfra Cymru a Choleg Gwent hefyd i hyrwyddo ein cyfleoedd recriwtio i bobl ifanc â sgiliau Cymraeg.

Rydym wedi parhau gyda'n hyfforddiant Sgiliau Cymraeg Lefel 1 gorfodol i'r holl staff ac wedi datblygu rhaglen barhaol o gyfathrebu mewnol i dynnu sylw at gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, e.e. Gair Cymraeg yr Wythnos yn y bwletin newyddion i staff.

Cyfyngwyd ar ein gallu i ymgysylltu ar-lein trwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd gydag aelodau ein cymuned a'n staff ein hunain oherwydd cyfyngiadau technolegol. Rydym yn croesawu'r newyddion bod Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi bod yn gweithio gyda Microsoft i alluogi'r defnydd o gyfieithu ar y pryd ar y platfform Teams. Bydd y nodwedd hon yn bwysig iawn i ni gan y byddwn yn gallu cynnig dewis iaith o ansawdd uchel yn gyson i'n defnyddwyr gwasanaeth.

Rydym yn parhau i ganfod ffyrdd i wella ein gwasanaethau Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn ein cymunedau ac o fewn ein sefydliad ein hunain, gan eu bod yn bartneriaid allweddol yn y gwaith o symud y gwelliannau hyn ymlaen.

Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o'n treftadaeth, rhaid ei hyrwyddo a'i gwerthfawrogi trwy Gymru gyfan. Mae Heddlu Gwent wedi ymroi i ymgysylltu â phob un o'n cymunedau trwy gyfrwng y Gymraeg, a rhaid i ni barhau i ymdrechu i ymgorffori'r Gymraeg ym mhob agwedd ar ein gwaith.

**PAM KELLY**
PRIF GWNSTABL | HEDDLU GWENT





# UCHAFBWYNTIAU

## ADOLYGU POLISI DEFNYDDIO'R GYMRAEG YN FEWNOL

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn mae Heddlu Gwent wedi adolygu ac ail gyhoeddi ei bolisi Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol. Roedd yn amser adolygu'r polisi ar ôl iddo fod yn weithredol am dair blynedd. Roedd yn galonogol nodi bod y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol wedi ffynnu yn ystod y tair blynedd. Cynlluniwyd rhaglen o erthyglau ar gyfer ein mewnrwyd, Y Bît, i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a hyrwyddo ei defnydd dyddiol trwy'r sefydliad cyfan. Mae'r rhaglen ymwybyddiaeth hon yn cynnwys cyfweliadau gyda chydweithwyr sy'n siarad Cymraeg ac adran Gair Cymraeg yr Wythnos yn y bwletin wythnosol i staff.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ymunodd ein Rhwydwaith Siaradwyr a Dysgwyr Cymraeg â rhwydweithiau staff eraill i chwarae rhan fwy gweithredol i hyrwyddo dealltwriaeth ymarferol o'r problemau a wynebir gan grwpiau lleiafrifol ymysg cyflogeion. Mae pob rhwydwaith staff yn derbyn gwahoddiad yn awr i gyfarfodydd rheolaidd ac ar wahân gyda'r Prif Gwnstabl, y Dirprwy Brif Gwnstabl a Phennaeth Gwasanaethau Pobl i sicrhau eu bod yn rhan o'r broses o benderfynu, datblygu polisïau ac ymgyrchoedd newydd a phrosesau'n ymwneud â gweithgarwch ymgysylltu â staff.

## DARPARU RHAGLEN HYFFORDDIANT SGILIAU CYMRAEG LEFEL 1 GORFODOL

Cafodd y pandemig effaith sylweddol ar sesiynau hyfforddiant gorfodol Lefel 1 i staff presennol. Cafodd sesiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb nad oeddent yn hanfodol eu gohirio yn ystod y cyfnod Mawrth 2021 tan Awst 2021. Er gwaethaf hyn, derbyniodd pawb a ymunodd â Heddlu Gwent o'r newydd yn 2021/22 hyfforddiant Lefel 1 Cymraeg yn rhan o'r hyfforddiant sefydlu, a darparwyd yr hyfforddiant gan Swyddog Polisi'r Gymraeg naill ai fel sesiwn ar Teams neu fel hyfforddiant wyneb yn wyneb gan gadw pellter.

## DIWRNOD HAWLIAU'R GYMRAEG

I ddathlu Diwrnod Hawliau'r Gymraeg 2021, cyhoeddodd Heddlu Gwent gyfweliad ar Y Bît gydag un o'n swyddogion sy'n siarad Cymraeg. Y cyfweliad hwn oedd neges graidd y dydd i helpu i godi ymwybyddiaeth bod gennym ni gydweithwyr yn y sefydliad sy'n siarad Cymraeg ac sydd eisiau gwella eu sgiliau Cymraeg a defnyddio'r sgiliau hynny i ryngweithio'n broffesiynol gydag aelodau'r cyhoedd a chydweithwyr eraill. Teitl y cyfweliad a'r erthygl gysylltiedig oedd "Croesawu'r Gymraeg mewn Plismona".

## PENCADLYS NEWYDD YR HEDDLU

Ar ddiwedd 2021, dechreuodd staff Heddlu Gwent symud i adeilad y pencadlys newydd yn Llantarnam, Cwmbrân. Roedd Swyddog Polisi'r Gymraeg yn rhan o gyfarfodydd y tîm prosiect a dylunio o'r cyfnod cynnar. Mae bod yn rhan o'r gwaith o ddylunio arwyddion dwyieithog o'r dechrau wedi galluogi Heddlu Gwent i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Mae pob arwydd ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, ac mae'r Gymraeg yn ymddangos uwchben neu i'r chwith o'r Saesneg.



# STRATEGAETH Y GYMRAEG AR Y CYD

Mae Heddlu Gwent a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi cyhoeddi Strategaeth y Gymraeg ar y Cyd newydd ar gyfer 2021-2025. Mae'r Strategaeth hon yn datblygu'r cydweithrediad rhwng y ddau sefydliad o ran hyrwyddo a darparu gwasanaethau Cymraeg.

Y tri addewid allweddol yn y Strategaeth ar y Cyd newydd yw:

- **ymgysylltu'n effeithiol â siaradwyr Cymraeg o fewn ein cymunedau er mwyn llywio'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu**
- **cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r dysgwyr a gyflogir gennym ar draws y ddau sefydliad**
- **casglu data y gallwn eu defnyddio i wella ansawdd ein gwasanaethau Cymraeg.**

**STRATEGAETH Y GYMRAEG** *CLICIWCH YMA*

Er mwyn galluogi cydberthnasau gwaith agosach a manteisio i'r eithaf ar arbedion, mae Heddlu Gwent a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn rhannu swyddi Swyddog Polisi'r Gymraeg a'r Cyfieithydd Cymraeg.



# CWYNION

Yn ystod cyfnod yr adroddiad 1 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2022, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â diffyg gwasanaeth Cymraeg.



# SWYDDI A HYSBYSEBWYD YN 2021/22

Yn ystod cyfnod yr adroddiad - 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 - hysbysebwyd cyfanswm o 330 o swyddi:

- **Hysbysebwyd 300 o swyddi yn nodi bod y Gymraeg yn ddymunol (Lefel 1).**
- **Hysbysebwyd 12 o swyddi yn nodi bod y Gymraeg yn hanfodol (Lefel 2 neu uwch).**
- **Hysbysebwyd 18 o swyddi yn anghywir yn nodi nad oedd y Gymraeg yn ofynnol. Polisi'r sefydliad yw bod pob swydd a hysbysebir yn nodi bod y Gymraeg yn hanfodol (Lefel 1) oni bai bod dyletswyddau'r swydd yn gofyn am lefel sgiliau uwch yn y Gymraeg.**



# HYFFORDDIANT YN Y GYMRAEG

Mae Heddlu Gwent a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn darparu cwrs hyfforddiant gorfodol Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Sgiliau Lefel 1 i bob cyflogai. Darperir yr hyfforddiant gan Swyddog Polisi'r Gymraeg.

Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 derbyniodd 100% o recriwtiaid newydd yr hyfforddiant hwn yn rhan o'u hyfforddiant sefydlu. Ar 31 Mawrth 2022, roedd 209 o gyflogeion (8%) nad oeddent wedi derbyn yr hyfforddiant. Bydd amserlen hyfforddiant ddiwygiedig yn parhau yn ystod 2022/23 nes bydd pob cyflogai wedi mynychu.

Mae cyfleoedd ar gael i gyflogeion gofrestru ar gyrsiau mewnol Cymraeg i Oedolion a ddarperir gan Goleg Gwent. Lle y bo'n bosibl, mae cyflogeion yn mynychu yn ystod oriau gwaith. Yn ystod cyfnod yr adroddiad, roedd nifer y cyflogeion wedi cofrestru ar y cyrsiau hyn fel a ganlyn:

- **Mynediad 1: 6 myfyriwr**
- **Mynediad 2: 4 myfyriwr**
- **Sylfaen 1: 2 fyfyriwr**
- **Sylfaen 2: 1 myfyriwr**
- **Canolradd 1: 1 myfyriwr**
- **Uwch 2 (Rhan 1): 1 myfyriwr**
- **Uwch 2 (Rhan 2): 2 fyfyriwr**





# SGILIAU CYMRAEG CYFLOGEION

Isod mae tabl yn dangos lefel y sgiliau Cymraeg a gofnodir ar ein system Adnoddau Dynol ar hyn o bryd. Ers 2017, rydym wedi gweld twf cyson yn y sgiliau Lefel 1, diolch i'r hyfforddiant gorfodol. Yn ystod cyfnod adroddiad 2021/22 rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y cydweithwyr sy'n datgan sgiliau Cymraeg ar lefelau 2, 3, 4 a 5. Credwn fod hyn oherwydd nifer o ymdrechion cyson i annog cydweithwyr i ddatgan eu sgiliau ac oherwydd bod cydweithwyr yn teimlo'n fwy hyderus i wneud hynny.

**SGILIAU CYFLOGEION YN Y GYMRAEG**

| LEFEL | NIFER CYFLOGEION | | |
|---|---|---|---|
| | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 |
| 1 | 1765 | 1912 | 2034 |
| 2 | 38 | 41 | 68 |
| 3 | 20 | 22 | 34 |
| 4 | 34 | 37 | 47 |
| 5 | 21 | 27 | 42 |
| CYFANSWM | 1878 | 2039 | 2225 |
| CYFANSWM CYFLOGEION | 2262 | 2447 | 2543 |

Diffiniadau Lluoedd Heddlu Cymru o Lefelau Sgiliau Cymraeg (sgiliau llafar yn unig):

### LEFEL 1
Gallu dweud enwau lleoedd, enwau personol, gallu cyfarch yn briodol yn bersonol neu ar y ffon, gallu dechrau a therfynu cyfarfodydd yn ddwyieithog.

### LEFEL 2
Gallu deall hanfod sgwrs a chyfleu gwybodaeth syml, gallu ymateb i geisiadau syml,



gallu deall ceisiadau am gymorth, gallu defnyddio Cymraeg i drosglwyddo galwadau ffôn, gallu cyflwyno ei hun ac eraill.

### LEFEL 3


Gallu cymryd a throsglwyddo negeseuon sy’n debygol o fod angen sylw yn ystod diwrnod gwaith, gallu sgwrsio’n rhannol yn Gymraeg ond yn troi at y Saesneg mewn trafodaethau ac i roi gwybodaeth fanwl, gallu disgrifio pobl a lleoliadau, gallu ymateb i ymholiadau cyffredinol dros y ffôn ac wyneb yn wyneb, gallu cymryd manylion neu nodiadau o wrando ar sgwrs Gymraeg.

### LEFEL 4

Gallu cyfrannu’n effeithiol mewn cyfarfodydd o fewn ei faes gwaith ei hun, gallu dadlau achos o blaid neu yn erbyn syniad, gallu sgwrsio yn Gymraeg yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd ond yn troi at y Saesneg wrth ddefnyddio terminoleg plismona neu dechnegol, gallu ymdrin ag ymholiadau’n effeithiol, gallu deall gwahanol dafodieithoedd, gallu cadeirio cyfarfod ac ymateb i gwestiynau yn Gymraeg, gallu disgrifio sefyllfa neu ddigwyddiad yn Gymraeg.

### LEFEL 5

Gallu cyfweld ag ymgeiswyr am swyddi lle mae angen gallu siarad Cymraeg ac asesu eu haddasrwydd, gallu ymdrin yn effeithiol ag ymholiadau cymhleth neu ymdrin â gwrthdaro yn Gymraeg, gallu cyfweld neu holi yn ystod ymchwiliad, gallu ymdrin ag ymholiadau cymhleth neu sensitif, cwynion a chwestiynau ymosodol yn ei faes arbenigol ei hun, gallu gwneud cyflwyniadau yn Gymraeg.



# MONITRO A GORUCHWYLIO CYDYMFFURFIAETH Â’R SAFONAU

Y Dirprwy Brif Gwnstabl sy’n gyfrifol am fonitro a gwerthuso cydymffurfiaeth Heddlu Gwent â Safonau’r Gymraeg, a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi sy’n gyfrifol am graffu.

Mae gan Heddlu Gwent system gadarn o gyfarfodydd a “byrddau” rheolaidd sy’n monitro sut rydym yn bodloni ein holl ofynion cyfreithiol i ddarparu gwasanaethau plismona o’r ansawdd gorau posibl i bobl Gwent. I’n galluogi ni i fonitro sut rydym yn cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg ym mhob maes o fusnes plismona, rydym yn cynnal cyfarfodydd y Gymraeg bob tri mis dan gadeiryddiaeth Pennaeth Gwasanaethau Pobl. Mae’r Dirprwy Brif Gwnstabl yn dirprwyo cyfrifoldeb dros faterion Cymraeg i’r Pennaeth Gwasanaethau Pobl.

Mae uchafbwyntiau o gyfarfodydd y Gymraeg yn cael eu cyflwyno ar gyfer y lefel nesaf o graffu mewnol mewn cyfarfod ar lefel uwch sy’n cael ei adnabod fel y Bwrdd Strategaeth Pobl, sydd hefyd yn cael ei gadeirio gan y Pennaeth Gwasanaethau Pobl. Mae llawer o uwch-swyddogion heddlu a staff yn mynychu’r cyfarfodydd bwrdd hyn er mwyn gallu cynorthwyo i ddatrys problemau, mynd â gwybodaeth berthnasol am faterion Cymraeg yn ôl at eu timau eu hunain a sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddatblygiadau’n ymwneud â’r Gymraeg y tu allan i’w meysydd busnes eu hunain.

Caiff unrhyw faterion arwyddocaol eu codi wedyn yng nghyfarfodydd y Tîm Uwch Swyddogion, a’r cyfarfod hwn yw’r lefel uchaf o ran monitro a llywodraethu a gynhelir yn fewnol gan Heddlu Gwent.

Bydd o leiaf un cynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn bresennol yng nghyfarfod y Gymraeg a chyfarfod y Bwrdd Strategaeth Pobl ac weithiau bydd cynrychiolydd o Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi’n bresennol i ddarparu craffu ychwanegol. Estynnir gwahoddiad i aelod sy’n siarad Cymraeg o Grŵp Cynghori Annibynnol Heddlu Gwent fod yn bresennol yn y cyfarfod Bwrdd Strategaeth Pobl hefyd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd y Gymraeg yn Ebrill 2021, Gorffennaf 2021, Hydref 2021 ac Ionawr 2022. Craffwyd ar ddata perfformiad o bob maes busnes. Mae pob adran wedi parhau i lunio adroddiad yn erbyn ei Gynllun Gweithredu’r Gymraeg pwrpasol ei hun ac mae materion gwella gwasanaeth wedi cael eu nodi. Trwy’r Cynlluniau Gweithredu hyn rydym yn parhau i fonitro prosesau busnes ar draws y sefydliad cyfan i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg sy’n berthnasol i fusnes plismona.





Nifer y prosesau/arferion busnes lle nodwyd camau gweithredu i wella ansawdd gwasanaethau Cymraeg: 54 (104 yn 2021)

Nifer y prosesau/arferion busnes lle mae camau gwella eisoes yn mynd rhagddynt neu wedi'u cwblhau'n rhannol: 108 (173 yn 2021)

Nifer y prosesau/arferion busnes lle mae gwasanaethau Cymraeg wedi cael eu hymgorffori'n llwyddiannus: 598 (512 yn 2021)

Cyfanswm y prosesau/arferion busnes a gawsant eu hadolygu neu eu gwella yn 2021/22: 115

Mae'r gwasanaeth cyfieithu Cymraeg mewnol wedi cael ei fonitro yn fwy manwl yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ac mae hyn wedi ein galluogi ni i ganfod cynnydd yn y galw am gyfieithu o 7% ers 2020/21. Caiff unrhyw geisiadau am gyfieithiad na ellir eu cwblhau gan ein Cyfieithydd mewnol eu hanfon at gyfieithwyr allanol.



# CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU DARPARU GWASANAETH

## CYFATHREBU Â'R CYHOEDD
Mae canllaw ar gyfer staff wedi cael ei gyhoeddi ar fewnrwyd Heddlu Gwent, Y Bît. Mae'r canllawiau hyn yn esbonio gofynion y Safonau Darparu Gwasanaeth yn glir ac yn syml. Mae staff yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r canllawiau a sut i'w defnyddio yn ystod y sesiwn hyfforddiant gorfodol Sgiliau Cymraeg Lefel 1.

## RECRIWTIO
Yn ystod cyfnod yr adroddiad, rydym wedi parhau i weithio gyda Gyrfa Cymru, Coleg Gwent a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr i hyrwyddo ein swyddi gwag a phwysleisio pwysigrwydd sgiliau Cymraeg.



## GWEFANNAU A CHYFRYNGAU CYMDEITHASOL
Erbyn hyn mae gan Heddlu Gwent oddeutu 550 o ddilynwyr i'n tudalen Facebook cyfrwng Cymraeg, cynnydd 31% o'i gymharu â ffigur y llynedd, a 425 o ddilynwyr i'n cyfrif Twitter, gostyngiad 24% o'i gymharu â ffigur y llynedd. Mae croeso i aelodau'r cyhoedd gysylltu â desg cyfryngau cymdeithasol Heddlu Gwent yn Gymraeg neu Saesneg hefyd.

## GWASANAETHAU DERBYNFA
Mae pob un o'n swyddogion ymholiadau gorsaf a staff ein prif dderbynfa yn y pencadlys wedi derbyn hyfforddiant pwrpasol i'w galluogi nhw i ddarparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg sylfaenol.

## CAFFAEL
Nid oes unrhyw geisiadau neu gontractau wedi cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac ni dderbyniwyd unrhyw rai yn Gymraeg yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

O ran contractau perthnasol (lle mae'r testun yn awgrymu y dylent fod yn Gymraeg) mae dogfennau tendro yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg. Mae'r ddogfen tendro yn nodi "Mae'r Comisiynydd yn croesawu ymatebion tendro yn Gymraeg" ac mae Rhestr Wirio'r Gymraeg wedi cael ei hymgorffori yn y broses dendro i sicrhau bod y Gymraeg yn cael sylw dyledus yn ystod pob cam. Mae mynediad at wasanaethau cyfieithu proffesiynol yn sicrhau bod cynnwys cyflwyniadau yn y Gymraeg yn cael ei adlewyrchu'n gywir, a bydd y broses werthuso'n rhedeg yn gyfochrog â'r broses werthuso ar gyfer cyflwyniadau yn Saesneg (os yn berthnasol). Bydd yr un dyddiad cau yn berthnasol i gyflwyniadau yn Gymraeg a Saesneg a bydd gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn cael eu cynnig a'u trefnu ar gyfer contractau perthnasol os bydd sefydliad yn dymuno cael cyfweliad yn Gymraeg.

## CYRSIAU ADDYSGOL
Mae gan Heddlu Gwent Swyddog Cyswllt Cymunedol Ysgolion pwrpasol sy'n darparu sesiynau addysgol yn Gymraeg i ddisgyblion ysgol ar draws ardal Gwent. Ymysg y pynciau sy'n cael eu trafod mae camddefnyddio cyffuriau a sylweddau a diogelu. Mae'r sesiynau a ddarperir yn cael eu cefnogi gan wefan ddwyieithog - www.schoolbeat.org sy'n cynnwys gwybodaeth a chanllawiau pellach i athrawon, disgyblion a rhieni.



# CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU LLUNIO POLISI

Rydym wedi bodloni ein Safonau Llunio Polisi trwy ddefnyddio ein proses Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i ganfod a rhoi sylw i unrhyw effeithiau sy'n codi o Safonau'r Gymraeg. Mae asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn rhan orfodol o'n gweithdrefn llunio polisi ac maent yn arwain ein llunwyr polisi a'n pobl sy'n gwneud penderfyniadau drwy'r broses o ystyried effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig fel y diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Er nad yw'r Gymraeg yn Nodwedd Warchodedig dan Adran 4 Deddf Cydraddoldeb 2010, rydym wedi diwygio ein templed Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn awr i gynnwys nifer o gwestiynau sy'n golygu y bydd unrhyw effaith ar y ffordd rydym yn trin y Gymraeg mewn perthynas â'r Saesneg, neu gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, yn cael eu nodi.

Anfonir pob polisi a gweithdrefn newydd, ac adolygiadau arfaethedig i bolisïau a gweithdrefnau presennol, at Swyddog Polisi'r Gymraeg fel mater o drefn yn ystod y cam ymgynghoriad mewnol. Mae Swyddog Polisi'r Gymraeg yn rhoi cyngor ac arweiniad pwrpasol i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg (ac eithrio lle ceir eithriadau cyfreithiol). Mae cynnwys Swyddog Polisi'r Gymraeg ym mhob ymgynghoriad polisi yn helpu i sicrhau bod yr holl gyfleoedd i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn cael eu nodi hefyd.

Fel rhan o'r broses ymgynghoriad polisi, cedwir cofnod o bob cyngor ac arweiniad a gynigir gan Swyddog Polisi'r Gymraeg. Yn ystod 2021/22 mae Swyddog Polisi'r Gymraeg wedi cyfrannu'n gadarnhaol at 34 polisi a gweithdrefn, gan gynnwys, er enghraifft, Polisi Tegwch yn y Gwaith, Polisi Diogelwch Gwybodaeth, Polisi Defnyddio'r Gampfa'n Ddiogel, Polisi Trwyddedu Arfau Tanio a Pholisi Cyfieithu ar y Pryd a Chyfieithu.



# CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU GWEITHREDOL

## CYMORTH I STAFF

Cyhoeddir canllawiau Safonau'r Gymraeg cynhwysfawr i staff ar fewnrwyd Heddlu Gwent, Y Bît, ar y dudalen 'Cymraeg'. Mae'r dudalen yn cynnwys cymorth ac adnoddau i staff sydd am ymarfer eu sgiliau Cymraeg neu sy'n ystyried addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant.

Darperir templedi Cymraeg ar gyfer ymatebion allan o'r swyddfa a llofnodion personol, ynghyd â bathodynnau rhithwir y gall cyflogeion eu hychwanegu at eu negeseuon e-bost i ddangos eu bod naill ai'n dysgu neu'n siarad Cymraeg. Mae pob siaradwr a dysgwr Cymraeg hysbys ar draws y Llu wedi cael bathodyn neu laniard priodol i'w wisgo.

## SGILIAU CYMRAEG Y GWEITHLU

Oherwydd nifer o flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn yr adran Gwasanaethau Pobl, nid yw wedi bod yn bosibl cwblhau'r adolygiad o swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol a swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddymunol yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Rydym yn cydnabod bod hwn yn faes y mae angen ei wella a byddwn yn cymryd camau i roi sylw i'r gwaith sydd heb ei gyflawni yn ystod cyfnod yr adroddiad nesaf.

Yn allanol, caiff swyddi eu hysbysu yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae ein meddalwedd recriwtio ar-lein yn galluogi ymgeiswyr i wneud ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg. Gofynnir i ymgeiswyr nodi lefel eu gallu yn y Gymraeg a nodi a fyddent yn hoffi cael eu cyfweld yn Gymraeg os ydynt yn cyrraedd y cam hwnnw yn y broses.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, mae cydweithwyr wedi derbyn neges awtomatig wrth fewngofnodi i'w cyfrifiaduron gwaith. Mae'r neges hon yn gofyn iddynt sicrhau eu bod wedi cofnodi lefel eu sgiliau Cymraeg yn briodol ar eu cofnod personél. Ar 31 Mawrth 2022, roedd 339 o gydweithwyr nad oeddent wedi nodi lefel eu sgiliau ar eu cofnod personél. Rydym yn cydnabod bod hwn yn faes y bydd angen ei wella yn ystod cyfnod yr adroddiad nesaf.

Mae pob aelod o staff sy'n ymuno â Heddlu Gwent yn derbyn hyfforddiant sgiliau Lefel 1 ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn rhan o'r hyfforddiant sefydlu. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn ein gweithlu'n ymwybodol bod cyfrifoldeb arnom ni i gynnig gwasanaethau difrys yn Gymraeg a Saesneg a'u bod yn deall eu rôl bersonol yn hwyluso dewis iaith.



### CYRSIAU HYFFORDDIANT A DDARPARWYD YN GYMRAEG

Ni ddarparwyd unrhyw gyrsiau hyfforddiant yn Gymraeg yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

### ARWYDDION

Yn unol â pholisi Heddlu Gwent, mae unrhyw arwyddion newydd, neu rai sy'n cael eu hadnewyddu, yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac mae'r testun Cymraeg yn cael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen gyntaf.







## HERIAU

Nid oes gan Heddlu Gwent unrhyw heriau wedi eu cyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg sydd heb eu clirio.



## CYSYLLTU Â NI

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae Heddlu Gwent yn cydymffurfio â Safonau''r Gymraeg, neu i gynnig sylwadau ar sut y gall Heddlu Gwent ymgysylltu'n fwy effeithiol â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn y cymunedau mae'n eu gwasanaethu, cysylltwch â Swyddog Polisi'r Gymraeg, Cath Baldwin:

| | |
|---|---|
| E-BOST | Catherine.Baldwin@gwent.police.uk |
| FFÔN | 07970 005 014 |
| TWITTER | @HEDDLUGWENT |
| FACEBOOK | HEDDLUGWENT |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg - byddwn yn ymateb yn gyfartal i geisiadau yn y ddwy iaith a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddewiswyd gennych heb oedi.


HEDDLU GWENT POLICE
Swyddfa Comisiynydd
Yr Heddlu a Throseddu
GWENT
Office of Police and
Crime Commissioner